HSCCLD430

Arwain y gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o asesu, gwerthuso a chefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys cefnogi’r gwaith o asesu dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd ac mae’n hwyluso’r gwaith o ddarparu amgylchedd sy’n hybu ac yn gwella dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi’r gwaith o fonitro, gwerthuso a chynllunio gwelliannau o ran dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi gofynion perthnasol y fframweithiau asesu a chwricwlwm
2. datblygu dulliau i asesu dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd plant neu bobl ifanc
3. arwain y defnydd o arsylwadau ac adborth gan blant neu bobl ifanc ac eraill i gefnogi dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd
4. annog plant neu bobl ifanc ac eraill i gymryd rhan mewn asesiadau a gwerthusiadau
5. hybu dull sy’n canolbwyntio ar y plentyn mewn asesiadau
6. cefnogi eraill i adnabod gwahanol agweddau ar gyfathrebu, iaith a llythrennedd mewn prosesau asesu
7. cydweithio ag eraill i fyfyrio ar ymarfer a modelu sgiliau myfyrio
8. cynllunio a datblygu rhaglenni a gweithgareddau sy’n hybu dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd plant neu bobl ifanc ac sy’n cyd-fynd â fframweithiau asesu a chwricwlwm
9. hybu cydraddoldeb mynediad a chymryd rhan mewn rhaglenni a phrofiadau cyfathrebu
10. gweithio ag eraill i greu amgylchedd cyfathrebu cefnogol sy’n gwella dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd plant neu bobl ifanc
11. caffael ac arwain y defnydd o arddangosfeydd, adnoddau, dyfeisiau ac adnoddau digidol er mwyn cefnogi dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd
12. cefnogi’r defnydd o arferion er mwyn hybu dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd
13. hybu gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan blant yn ogystal ag oedolion i gefnogi dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd
14. annog ymyriadau ymatebol a sensitif i gefnogi dulliau cyfathrebu ac iaith
15. datblygu gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso datblygiad dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd plant neu bobl ifanc
16. cefnogi eraill i fonitro a gwerthuso datblygiad dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd plant neu bobl ifanc
17. nodi arferion da, newidiadau gofynnol a chynlluniau ar gyfer datblygiad parhaus
18. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
19. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth

arwain y gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. patrwm disgwyliedig datblygiad o ran cyfathrebu ar gyfer plant a phobl ifanc
2. natur holistaidd datblygiad sy'n ymwneud â dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
3. ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad o ran cyfathrebu plant a phobl ifanc
4. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
5. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
6. sut y gall anghenion cyfathrebu effeithio'n sylweddol ar ganlyniadau bywyd
7. effaith ymyrryd yn gynnar ar iaith a chyfathrebu
8. sut mae newidiadau'n gallu effeithio ar ddulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
9. pwysigrwydd data dilys a dibynadwy wrth asesu datblygiad plant a phobl ifanc o ran dulliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd
10. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi dulliau cyfathrebu
11. sut mae arwain y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer arsylwi ac asesu yn y gweithle
12. y sail resymegol dros y dulliau asesu sy'n cael eu defnyddio yn y gweithle
13. ystyriaethau penodol sy'n ymwneud â threfniadau dysgu plant a phobl ifanc drwy iaith ychwanegol
14. dulliau o gefnogi llythrennedd gyda phlant a phobl ifanc
15. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi mewn perthynas â'r gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
16. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gyfathrebu
17. sut mae ymgorffori datblygiad cyfathrebu a llythrennedd mewn meysydd chwarae, dychymyg a dysgu mewn ffyrdd sy'n ystyrlon ac yn ddymunol i blant a phobl ifanc
18. y gwahanol fathau o ddulliau cyfathrebu llafar a di-lafar a all gael eu defnyddio, gan gynnwys strategaethau i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i gyfathrebu
19. y mathau o adnoddau, cyfarpar, dyfeisiau ac adnoddau digidol, gweithgareddau a phrofiadau sydd fwyaf cynhyrchiol o ran datblygu dulliau cyfathrebu
20. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
21. theorïau sy'n berthnasol i arwain y gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a

phobl ifanc
22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain y gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
24. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
25. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth arwain y gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD430

Arwain y gwaith o gefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD430 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cefnogi dulliau cyfathrebu plant a phobl ifanc, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |